CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN YSGOL LLANDDOGED LLANDDOGED, NOS LUN, 28ain Ebrill, 2025

1

1. 1 **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

1.2**PRESENNOL**

Cyng. Hefin Martin(HM (Cadeirydd), Cyng. Arwel Ll Jones(ALJ), Cyng. Alun Morris(AM),
Cyng Nerys Dobson(ND), Cyng. John Owen(JO), Cyng Rhys Griffiths(RG),
Delyth Algieri (clerc).

1.3 **YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Eifion Williams(EW), Cyng. Anwen Jones(AJ),
Cynghorwyr Sir - Cyng Nia OwenNO) Cyng Aaron Wynne(AW)

2. **CADARNHAU'R COFNODION 31ain MAWRTH, 2025**

Cynnigwyd y cofnodion yn gywir gan (ND) ac eilwyd gan (JO).

3.**MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**

Dim mater yn codi o'r cofnodion diwethaf.

4. CYNLLUNIO

Trafodwyd aelodau'r cyngor y ceisidau cynllunio isod a pasiwyd drwy i'r aelodau godi eu dwylo i gadanrhau nad oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau.

4.1 0/52492 Ailosod rhesi'r to sy'n dirywio i'r un manylion, gan ailddefnyddio'r llechi presennol. Cael gwared ar simnai bric o ddiwedd yr 19 Ganrif/fuan yn yr 20 Ganrif. Cael gwared ar bibelli gwresogi diweddar y 19 Ganrif/fuan yn yr 20fed Ganrif (Caniatâd Adeilad Rhestredig) St Ddoged's Parish Church Ffordd Efail Uchaf Llanddoged Llanrwst LL26 0AX

4.2 0/52499 Estyniad ochr unllawr, estyniad llawr cyntaf uwchben y rhan unllawr presennol, newidiadau i'r feranda presennol, gosod paneli solar i'r prif do Tan Y Fron Ffordd Fron Francis Llanddoged Llanrwst LL26 0TY

5. CYNNAL A CHADW

5.1 Arwydd LLANDDOGED wrth Plas Endnyfed yn hongian ac angen ei ailosod.
5.2 Tyllau ar allt Salem Llanddoged.

…….